**CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 1af Mai 2019 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

**<u>YN BRESENNOL</u>**

Y Cynghorydd Mrs. W. Mullen-James (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs. J. Butterfield, Mrs. J. Chamberlain-Jones, A.S. Johnson, K.R. Jones, Mrs. P.M. Jones, Mrs. D. King, B. Mellor, Miss. S. Roberts, Ms V. Roberts, J. Rutherford a Miss C.L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

**68. <u>YMDDIHEURIADAU</u>**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Ms. J. Hughes, Ms. J. McAlpine, ac R. Turner.

**69. <u>CEISIADAU CYNLLUNIO</u>**

Ystyriodd yr Aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *fel y nodir arnynt nawr.*

**Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.**

| **ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| 69.1 | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>:** Cartref Nyrsio Preswylfa, 20 Russell Road, y Rhyl<br><br>**<u>WARD:</u>** Plastirion<br><br>**<u>CYNGHORWYR Y WARD</u>:** K.R. Jones<br>T. Thomas<br><br>**<u>RHIF Y CAIS</u>:** 45/2019/0351<br><br>**<u>DISGRIFIAD</u>:** Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed Rhif 9, 1988 ac o fewn Ardal G2 ar y cynllun ynghlwm wrth Orchymyn Gwarchod Coed Cyngor Trefol y Rhyl 1951<br><br>**<u>YMGEISWYR</u> :** Mr. Andrew Hood, Arbor Division Ltd., Uned N7G, Tursdale Business Park, Durham<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>****: Dim gwrthwynebiad yn amodol*<br><br>1. *Ar ddim gwaith yn cael ei wneud yn ystod y tymor nythu*<br>**2.** *Mae'r cyngor yn ymwybodol bod ystlumod wedi eu gweld yng nghyffiniau'r coed ac yn gofyn bod archwiliad pellach yn cael ei wneud cyn dechrau ar unrhyw waith, i weld os yw ystlumod yn nythu yno, o ystyried bod yr arolwg presennol yn 10 mis oed.* |

**70. SESIWN ARWEINIAD GAN SWYDDOG CYNLLUNIO CYNGOR SIR DDINBYCH**

Dywedodd Clerc y Dref bod y sesiwn hyfforddi wedi ei ohirio tan gyfarfod yn y dyfodol gan nad oedd Swyddog y Cyngor ar gael.

**71. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod: ……………...…………

Dyddiad**:** **…………………….........**